

This is an Open Access document downloaded from ORCA, Cardiff University's institutional repository:<https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/154696/>

This is the author's version of a work that was submitted to / accepted for publication.

Citation for final published version:

Ifan, Elen 2023. Rhwng y rheol uniaith a'r requiem: gweithrededd cyfieithu'r eisteddfod genedlaethol. Y Traethodydd , pp. 112-128.

Publishers page:

Please note:

Changes made as a result of publishing processes such as copy-editing, formatting and page numbers may not be reflected in this version. For the definitive version of this publication, please refer to the published source. You are advised to consult the publisher's version if you wish to cite this paper.

This version is being made available in accordance with publisher policies. See <http://orca.cf.ac.uk/policies.html> for usage policies. Copyright and moral rights for publications made available in ORCA are retained by the copyright holders.



**Rhwng y Rheol Uniaith a'r *Requiem*:**  
**Gweithrededd Cyfieithu'r Eisteddfod Genedlaethol**

Eisteddfod Genedlaethol Caerffili, 1950, oedd, yn ôl Alan Llwyd, 'yr Eisteddfod bwysicaf erioed yn holl hanes yr Eisteddfod'.<sup>1</sup> Y rheswm dros hynny? Am mai dyma'r flwyddyn gyntaf y gweithredwyd yn llawn y rheol uniaith, rheol a dderbyniwyd gan Gyngor yr Eisteddfod ym 1937, ac un a sefydlodd mai 'Y Gymraeg fydd iaith swyddogol y Cyngor a'r Eisteddfod'.<sup>2</sup> Mae'r diwylliant perfformio Cymraeg yn llawn enghreifftiau o ganeuon a darnau cerddorol wedi'u cyfieithu, ac wrth graffu ymhellach, gwelir bod sawl un yn deillio'n uniongyrchol o anghenion perfformwyr i gydymffurfio â rheol uniaith yr Eisteddfod. Bwriad yr ysgrif hon yw archwilio Eisteddfod Genedlaethol Cymru fel gweithredydd cyfieithu (translation agent), a rôl y rheol uniaith fel catalydd i ddiwylliant cyfieithu celfyddydol sy'n rhan bwysig o'r diwylliant perfformio Cymreig hyd heddiw. Wedi dweud hyn, nid yw gweithredydd yn gweithio'n llwyr annibynnol, ond yn hytrach fel rhan o rwydwaith cyfieithu ehangach. Yn hynny o beth, cydnabyddir yng nghwrs y drafodaeth fod sawl gweithredydd o fewn y rhwydwaith dan sylw, ac fe ystyrir rhai o'r cyrff, grwpiau ac unigolion sydd wedi cyfrannu at y darlun llawn. Creffir ar enghreifftiau penodol o ganlyniadau gweithrededd y rhwydwaith cyfieithu hwn: rhwydwaith sydd â'r Eisteddfod Genedlaethol yn ganolbwynt iddo.

Am resymau gofod, ni ellir cyffwrdd ar bob agwedd ar weithgarwch cyfieithu'r rhwydwaith. Canolbwyntir yn benodol ar gystadlaethau lleisiol unigol yn y 1950au yn dilyn gweithredu'r rheol uniaith, y cyfnod pan welwyd y newid mwyaf i'r cystadlaethau hyn sy'n greiddiol i weithgarwch cyfieithu'r rhwydwaith. Ystyrir y broses o ddethol darnau gosod yn y cyfnod hwn, a'r modd y gwelir gweithrededd gwahanol rannau o'r rhwydwaith yn strwythur gweinyddol yr Eisteddfod. Rhoddir trosolwg bras hefyd o weithrededd y rhwydwaith yng

nghyngherddau'r Eisteddfod o'r 1940au ymlaen, gan gyffwrdd ar ddatblygiadau yn rhaglenni'r cyngherddau hyd y presennol. Ystyrir hefyd i ba raddau y ceir tystiolaeth o weithrededd cyfieithu yn yr adran Llenyddiaeth yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif, gan ganolbwyntio ar gystadlaethau cyfieithu penodol yn ystod y cyfnod hwn. Ni fydd yr ysgrif hon yn mynd i'r afael â chynnwys cyfieithiadau penodol na phenderfyniadau cyfieithwyr unigol; cynnig trosolwg o'r gweithgarwch yw'r bwriad, gan gydnabod nad yw'r trosolwg hwnnw'n un cyflawn, ond yn hytrach yn goleuo ambell agwedd berthnasol.

Cyn mynd ymhellach, mae'n werth oedi i ddiffinio'r termau a gyflwynir uchod, ac i roi amlinelliad byr o'u harwyddocâd yng nghyd-destun maes astudiaethau cyfieithu. Mae'r term 'translation agent', neu, yn y Gymraeg, 'gweithredydd cyfieithu' yn un cydnabyddedig ymysg y rheiny sy'n gweithio ym maes astudiaethau cyfieithu.<sup>3</sup> Diffinnir 'gweithredydd' gan Juan Sayer fel unigolyn sydd 'in an intermediary position between a translator and an end user of a translation'.<sup>4</sup> Mae Milton a Bandia yn adeiladu ar y diffiniad hwnnw i gynnwys cyfieithwyr eu hunain fel gweithredwyr, yn ogystal â mynd y tu hwnt i bwyslais Sayer ar unigolion i gynnwys 'patrons of literature, [...] politicians, or companies which help to change cultural and linguistic policies. They may also be magazines, journals or institutions'.<sup>5</sup> Y mae dylanwad gweithredwyr cyfieithu, felly, i'w weld mewn sawl man: yn y modd y cefnogir ac ariennir prosiectau cyfieithu, yn y testunau a ddewisir i'w cyfieithu, ac yn y modd yr eir ati i gylchredeg, hybu, a chreu cyfieithiadau unigol. Yn sgil diffiniad Milton a Bandia uchod, mae modd ystyried yr Eisteddfod Genedlaethol fel gweithredydd: sefydliad celfyddydol sy'n dylanwadu ar arferion diwylliannol yng nghyd-destun creu cyfieithiadau. Yn sicr gellid dadlau, fel y gwelir maes o law, fod rheol uniaith yr Eisteddfod Genedlaethol wedi creu'r angen am gyfieithiadau celfyddydol yn y diwylliant Cymraeg, ac felly bod cysylltiad uniongyrchol rhwng penderfyniadau'r Eisteddfod ac arferion cyfieithu celfyddydol Cymru.

Fel y nodwyd uchod, rhaid cydnabod bod gweithrededd cyfieithu yn deillio o waith rhwydwaith, yn hytrach nag un unigolyn neu sefydliad. Wrth gyflwyno Actor-Network Theory [ANT] i faes astudiaethau cyfieithu, fe ddangosodd H  l  ne Buzelin fod archwilio'r rhwydwaith hwnnw, yn hytrach na thrafod gweithredwyr mewn termau ynysig, annibynnol, yn werthfawr: '[ANT] enables us to grasp both the complexity [...] of the translation process, and the hybridity of the translating agent'.<sup>6</sup> Mae cydnabod ac archwilio'r rhwydwaith yn greiddiol i ddeall datblygiad unrhyw ddiwylliant cyfieithu. Yn achos yr Eisteddfod Genedlaethol, ceir sawl gweithredydd sy'n rhan o'r rhwydwaith: Cyngor yr Eisteddfod yn ganolog, Pwyllgorau Gwaith lleol gwahanol Eisteddfodau, yn ogystal   chystadleuwyr a chyfieithwyr unigol. Yn sicr mae sefydlu'r rheol uniaith yn foment o bwys yng nghyd-destun y drafodaeth bresennol, ond rhy syml fyddai dadlau mai'r Eisteddfod Genedlaethol fel sefydliad yw'r unig weithredydd arwyddocaol yn achos y diwylliant cyfieithu geiriau caneuon a gweithiau cerddorol Cymreig. Bydd yr ysgrif hon, felly, yn cydnabod y rhwydwaith cyfieithu ac yn ceisio mynd i'r afael   rhai o'r prif weithredwyr sydd yn rhan ohono.

Fel y nodir uchod, Eisteddfod Genedlaethol Caerffili, 1950, oedd yr Eisteddfod gyntaf i lawn weithredu'r rheol uniaith. Ond, fel mae Alan Llwyd yn ei ddangos, bu'r rheol yn rhannol weithredol am dros ddeng mlynedd cyn hynny. Y brif her i'w gweithredu oedd natur gymharol Seisnig y cystadlaethau cerddorol: y beirniadaethau Saesneg a dueddwyd i'w traddodi, y corau o Loegr a fyddai'n cystadlu, a'r darnau gosod cymysg o ran iaith. Fel y dywed Llwyd, yr 'Adran Gerddoriaeth oedd y bygythiad mwyaf i Gymreigrwydd yr Eisteddfod',<sup>7</sup> ac roedd cryn wrthwynebiad i'r rheol ymysg rhai carfannau. Un o'r prif ddadleuon yn erbyn y rheol oedd, fel y noda Harri Williams, gwrthwynebiad 'y puryddion cerddorol [...] sy'n casau [*sic*] gwrando ar unrhyw gerddoriaeth ond fel y cyfansoddwyd hi – ar y geiriau gwreiddiol'.<sup>8</sup> Hyd yn oed wedi Eisteddfod 1950, roedd y ddadl yn parhau.<sup>9</sup> Yn ogystal  r gwrthwynebiad i'r rheol, roedd

y mater ymarferol o gyfieithu 'toreth o ganeuon i'r Gymraeg' yn her sylweddol i Gymreictod adran gerddorol yr Eisteddfod.<sup>10</sup>

Rhaid nodi, fodd bynnag, nad hollol estron i'r diwylliant perfformio Cymraeg oedd yr arfer o ganu darnau wedi'u cyfieithu. Mae sawl cyhoeddiad o ddechrau a chanol yr ugeinfed ganrif sy'n tystio y byddai perfformwyr a chynulleidfaoedd fel ei gilydd yn gyfarwydd â gweithiau wedi'u cyfieithu. Ystyrir, er enghraifft, y *Welsh Festival Book*, llyfr canu dwyieithog a gyhoeddwyd gan y Cyngor Cerddoriaeth Cenedlaethol ym 1924. Roedd y gyfrol yn bennaf at ddefnydd perfformiad arbennig yn Arddangosfa'r Ymerodraeth Brydeinig yn Wembley ym 1924, ond nodir yn y deunydd blaen fod y gyfrol 'for General Festival Use in Wales 1924–5'.<sup>11</sup> Mae'n cynnwys darnau gwreiddiol Cymraeg a Saesneg, wedi'u cyfieithu i'r naill iaith a'r llall, ond ceir hefyd ddarnau o'r Eidaleg, Almaeneg a Lladin wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg a'r Saesneg ynddi. Enghraifft nodedig arall yw cyhoeddiadau cerddorol Cwmni Cyhoeddi Gwynn, a sefydlwyd ym 1937 gan W. S. Gwynn Williams. Roedd cyfran helaeth y gerddoriaeth leisiol a gyhoeddwyd gan y cwmni yn cynnwys geiriau Cymraeg a Saesneg i'w canu ar y sgôr. Mae'r catalog o'r 1940au yn cynnwys gosodiadau gan gyfansoddwyr o Gymru o farddoniaeth Gymraeg a Saesneg,<sup>12</sup> cerddoriaeth draddodiadol o Gymru a thu hwnt,<sup>13</sup> yn ogystal â repertoire safonol cerddoriaeth gelf Ewrop, eto yn dwyn geiriau Cymraeg a Saesneg arnynt.<sup>14</sup> Ac yn wir, gwelir o restrau testunau Eisteddfodau'r 1940au y defnyddir cyhoeddiadau a oedd eisoes yn bodoli mewn cystadlaethau ambell dro: mae darnau a gyhoeddwyd gan gwmnïau megis Cwmni Cyhoeddi Gwynn, Hughes a'i Fab, a Snell wedi'u cynnwys ymysg rhestrau'r cystadlaethau lleisiol.<sup>15</sup>

Er gwaethaf bodolaeth darnau cerddorol â geiriau Cymraeg iddynt yn ystod y cyfnod yn rhagflaenu gweithredu'r rheol uniaith, penderfynodd Cyngor yr Eisteddfod gomisiynu cyfieithiadau newydd i'w perfformio mewn cystadlaethau cerddorol o 1949 ymlaen. Yn adroddiad Eisteddfod Dolgellau 1949, nodi Ysgrifennydd Cyffredinol y Pwyllgor Gwaith,

Thomas Jones, fod yr Eisteddfod honno wedi bod ‘yn foddion i Gymreigio cryn dipyn ar adran gerdd yr Eisteddfod Genedlaethol’.<sup>16</sup> Mae adroddiad 1949, ynghyd ag adroddiadau Eisteddfodau yn ystod y blynyddoedd canlynol, yn cynnwys manylion ynghylch comisiynu cyfieithiadau o eiriau caneuon. Nodir, er enghraifft, mai ‘prin oedd y gweithiau cerdd safonol a ellid eu canu ar eiriau Cymraeg; a bu hynny’n sbardun i Gyngor yr Eisteddfod sicrhau cyfieithiadau Cymraeg o rai gweithiau ar gyfer cyngherddau a chystadleuthau’r [sic] Eisteddfod.’<sup>17</sup> Yn amlwg, roedd y Cyngor yn awyddus i gynnal safonau adran gerddorol yr Eisteddfod, gan sicrhau bod ‘gweithiau cerdd safonol’ yn rhan o’r arlwy o’r llwyfan. Dywed Rhestr Testunau Adran Cerddoriaeth Eisteddfod 1950, ‘Rhaid canu pob darn yn yr adran hon yn Gymraeg’, sef y tro cyntaf y dywedir hynny’n eglur yn y rhestr destunau.<sup>18</sup> Yn ddiddorol, ychwanegir ‘oni nodir yn wahanol’ ar gyfer rhestr testunau Llanrwst 1951, gan fod un darn i’w berfformio yn Eidaleg, un yn Lladin, ac un naill ai yn Lladin neu yn Gymraeg.<sup>19</sup> Nid yn hollol gyson felly y bu’r defnydd o’r Gymraeg yn Adran Cerddoriaeth yr Eisteddfod Genedlaethol wedi 1950. Er nad yw’r rheswm dros hynny yn gwbl eglur, mae’n ddigon posib mai osgoi defnydd o’r Saesneg yn benodol oedd prif flaenoriaeth yr Eisteddfod yn y cyfnod hwn. Er hyn, mae rhestr 1951 yn dangos sawl cyfieithiad arall i’r Gymraeg o ieithoedd Ewropeaidd y tu hwnt i’r Saesneg, felly mae’n bosib hefyd na threfnwyd cyfieithiadau mewn da bryd i’w cyhoeddi yn yr achosion a nodir uchod.

Fel y gwneir yn adroddiad 1949, mae adroddiad Eisteddfod Aberystwyth 1952 hefyd yn tynnu sylw at y ffaith y ‘cyfieithwyd rhyw 16 o ddarnau o wahanol ieithoedd’, a bod Cyngor yr Eisteddfod yn ‘barod i drefnu i gyfieithu unrhyw waith cerddorol i Gymraeg ar gyfer cystadleuaeth neu gyngerdd’.<sup>20</sup> Mae sawl adroddiad blynyddol o’r cyfnod yn cynnwys rhestr o gyfieithiadau ‘a drefnwyd gan Gyngor yr Eisteddfod’ ar gyfer Eisteddfodau’r blynyddoedd i ddod. Enwir 16 o gyfieithiadau yn rhestr Eisteddfod Caerffili 1950, ac 16 eto yn rhestr Aberystwyth 1952, gyda nifer llai ar gyfer Eisteddfodau Llanrwst 1951 (6 chyfieithiad) a’r

Rhyl 1953 (7 cyfieithiad).<sup>21</sup> Trwch cynnwys y rhestrau hyn yw gweithiau safonol gan gyfansoddwyr canonaidd Ewropeaidd megis Brahms, Bach, Schumann, Schubert, Beethoven a Mendelssohn, gan arddangos eto ymroddiad y Cyngor i weithgarwch cyfieithu yn ystod blynyddoedd cynnar gweithredu'r rheol uniaith.

3Mae cynnwys yr adroddiadau blynyddol yn tystio i awydd Cyngor yr Eisteddfod yn ganolog i barhau i gynnwys gweithiau safonol ac adnabyddus fel rhan o gystadlaethau lleisiol yr Eisteddfod wedi'r rheol uniaith, ond diddorol yw'r nifer amrywiol o gyfieithiadau a wnaed o flwyddyn i flwyddyn. Yn wir, mae hyn yn rhoi mewnwelediad i ni i'r rhwydwaith cyfieithu, a'r modd y byddai'n gweithredu o gwmpas yr Eisteddfod fel sefydliad. Mae hyn yn deillio o'r modd y mae strwythur gweinyddiaeth Eisteddfodau gwahanol yn newid o flwyddyn i flwyddyn. Yn ogystal â sefydliad canolog mwy sefydlog Cyngor yr Eisteddfod, a'r Is-Bwyllgorau Llenyddiaeth, Cerdd, Drama a Chelf sy'n perthyn iddo, mae'n bwysig nodi bod Pwyllgorau Gwaith Lleol blynyddol, a'u haelodau'n unigolion o ardal yr Eisteddfod y flwyddyn honno, yn bennaf gyfrifol am ddewis testunau a darnau gosod. Nodir hyn yn eglur yng Nghyfansoddiad cyntaf yr Eisteddfod ym 1937: 'Bydd i'r Pwyllgor Lleol ymgymryd â [...] (9) [Ch]yflwyno i ystyriaeth a chymeradwyaeth y Cyngor restr y gwobrwyon a gynigir, y testunau a'r beirniaid'.<sup>22</sup> Gellid ystyried rhwydwaith gweinyddol trefnu'r Eisteddfod Genedlaethol fel enghraifft o'r rhwydwaith cyfieithu yn yr un modd: mae penderfyniadau'r gwahanol Bwyllgorau Lleol yn cael effaith ar y nifer a'r math o ddarnau a gaiff eu cyfieithu ar gyfer pob Eisteddfod.

Cystadlaethau sydd yn amlygu rhwydwaith cyfieithu'r Eisteddfod Genedlaethol a'i gweithrededd yw'r prif gystadlaethau lleisiol: Unawdau Soprano, Mezzo-Soprano / Contralto / Gwrth-Denor, Tenor, a Bariton / Bas. Mae enillwyr y cystadlaethau hyn oll yn cystadlu eto ar gyfer Gwobr Goffa David Ellis, neu'r Rhuban Glas, sef prif wobwr unawdau'r Eisteddfod Genedlaethol. Yn ystod cyfnod cynnar gweithredu'r rheol uniaith, gwelir o restrau'r cyfieithiadau a wnaed at bwrpas cystadlu mai at y cystadlaethau hyn y cafwyd cyfieithu yn

bennaf. O'r 7 cyfieithiad a wnaed ar gyfer Eisteddfod y Rhyl, 1953, dau yn unig sydd ddim yn perthyn i'r unawdau dros 25 oed, ac mae dros hanner o'r 16 cyfieithiad a baratowyd ar gyfer Eisteddfod Aberystwyth ym 1952 hefyd yn perthyn i'r cystadlaethau hyn.<sup>23</sup> Ymysg y rhestrau ceir cyfieithiadau o ariâu, megis 'Ffarwel Lwyni', o *Jeanne d'Arc* gan Tchaikovsky a 'Dos at f'anwylyd', o *Don Giovanni* gan Mozart; caneuon celf megis 'Lorelei' ('Loreley') gan Liszt a 'Gwledd Belsasar' ('Belshazzar') gan Schumann; a darnau sy'n deillio o weithiau crefyddol, megis y *Magnificat* ac *Oratorio'r Nadolig* gan J.S. Bach.<sup>24</sup> Er bod sawl cyfieithiad wedi'u perfformio droeon yn y cystadlaethau hyn dros 70 mlynedd o'r rheol uniaith, diddorol yw sylwi ar nodyn yn Rhestr Testunau Eisteddfod 2019 dan gystadleuaeth Ysgoloriaeth W. Towyn Roberts, cystadleuaeth agored i unawdwyr: 'Bydd Swyddfa'r Eisteddfod yn darparu cyfieithiad Cymraeg o unrhyw gân'.<sup>25</sup> Yn achos y gystadleuaeth hon, felly, gellid ystyried y cystadleuwyr eu hunain yn rhan o'r rhwydwaith cyfieithu: yn dylanwadu ar yr hyn a gaiff ei gyfieithu i'r Gymraeg wrth ddewis eu rhaglenni at y gystadleuaeth.

Yn ogystal â'r sawl sy'n dewis y darnau i'w cyfieithu, boed y rheiny'n bwyllgor gwaith neu'n berfformiwr, ni ellir trafod y weithred o gyfieithu heb roi sylw i ran annatod o unrhyw rwydwaith cyfieithu, sef y cyfieithydd ei hun. Fel y nodwyd uchod, nid bwriad yr ysgrif hon yw dadansoddi cyfieithiadau penodol na chraffu ar benderfyniadau penodol gan gyfieithwyr, ond mae'n werth oedi i sylwi ar y berthynas rhwng Cyngor yr Eisteddfod a'r cyfieithwyr a ddefnyddiwyd yn ystod y 1940au a'r 50au, gan fod yma wybodaeth am sut y mae'r rhwydwaith yn gweithredu. Mae sawl un o'r enwau a ymddengys yn rhestrau'r cyfieithiadau – Enid Parry, T. H. Parry-Williams, Iorwerth C. Peate, Wil Ifan, Cynan – hefyd i'w canfod ymysg aelodau'r Pwyllgor Gwaith, Swyddogion yr Orsedd, neu ar Is-Bwyllgorau'r Cyngor.<sup>26</sup> Mae'r berthynas agos hon rhwng gwahanol rannau'r rhwydwaith cyfieithu yn elfen ddiddorol: mae'n goleuo'r modd y mae un gweithredydd yn mynd ati i drefnu cyfieithiadau, ac yn awgrymu'r rhesymau dros ddewis cyfieithwyr penodol (nodwedd bwysig yng nghyd-destun gweithrededd cyfieithu



sy'n amlygu strwythurau grym a dylanwad yn y rhwydwaith). Yn naturiol ddigon, efallai, dyma enghraifft o gorff dylanwadol yn y rhwydwaith cyfieithu (Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol, sef y sawl sy'n trefnu'r cyfieithiadau eu hunain) yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael wrth law (h.y., aelodau unigol o'r Cyngor hwnnw) i fod yn rhan allweddol arall o'r rhwydwaith hwnnw, sef y cyfieithwyr eu hunain.

Mewn un achos, o leiaf, gwelwn fod prinder amser a'r angen am gyfieithiad ar fyrder yn ffactor allai fod wedi dylanwadu ar y modd y dewiswyd cyfieithydd gan y Cyngor. Wrth i'r paratodau fynd rhagddynt at Eisteddfod Genedlaethol Bangor, 1943, daeth i'r amlwg mai yn Saesneg y byddai Côr yr Eisteddfod yn perfformio yn un o'r cyngherddau. Er bod hyn cyn yr Eisteddfod 'uniaith' gyntaf yn 1950, mae'n bwysig nodi bod ymdrechion wedi'u gwneud yn ystod y blynyddoedd yn dilyn derbyn y rheol i Gyfansoddiad yr Eisteddfod ym 1937 i symud tuag at Eisteddfod fwy Cymraeg ei hiaith. Fel y noda Ernest Roberts, dewisodd gôr 1943 ganu'r 'darn gweddol gyfarwydd', *Hymn of Praise* gan Mendelssohn, 'oherwydd prinder amser a'r anhawster i gael cantorion o ardaloedd cylchynol oherwydd y cwtogi ar gyfleusterau teithio [o ganlyniad i'r Ail Ryfel Byd]'.<sup>27</sup> Gwrthwynebwyd hyn gan Gyngor yr Eisteddfod, a chan D. R. Hughes, Ysgrifennydd Cymdeithas yr Eisteddfod, yn benodol, a aeth ati i drefnu cyfieithiad: 'roedd wedi bod ar ofyn Mrs. Enid Parry, a hithau wedi addo cyfieithu'r "Hymn of Praise" i'r Gymraeg, os dymunid hynny'.<sup>28</sup> Cyfieithwyd y gwaith, ac fe ganwyd y geiriau Cymraeg, *Emyn o Fawl*, gan y côr yn y cyngerdd. Fel y nodwyd uchod, roedd Enid Parry yn aelod o Is-Bwyllgor Cerddoriaeth yr Eisteddfod, ac yn gyfarwydd iawn â'r broses gyfieithu. Prin iawn yw'r wybodaeth a gyhoeddwyd am waith cyfieithu Parry ei hun, yn anffodus, ond fel y noda Derec Llwyd Morgan yng nghofnod *Bywgraffiadur* ei phriod, Syr Thomas Parry, 'Yn y cyfnod hwn hefyd [y 1930au] y dechreuodd [T. Parry] gyhoeddi geiriau caneuon wedi'u gosod i gerddoriaeth, cyfieithiadau a chyfaddasiadau gan mwyaf [...] y mae'n fwy na thebyg mai o dan ddylanwad ei ddarpar-wraig y datblygodd y ddawn honno i'r cyfeiriad hwn'.<sup>29</sup> Ymhellach,

erbyn 1943, roedd Parry a'i gŵr wedi ymgartrefu ym Mangor. Gellid tybio, felly, y byddai hi'n ddewis naturiol ar gyfer yr orchwyl o gyfieithu geiriau'r oratorio, gan ystyried ei haelodaeth ar un o Is-Bwyllgorau'r Eisteddfod, ei diddordeb neilltuol yn y maes, a'i lleoliad daearyddol. Dangosir, drwy'r hanesyn bychan hwn, sut y gall ffactorau allanol (gan gynnwys digwyddiadau byd-eang) hefyd ddylanwadu ar weithrededd a phenderfyniadau gwahanol rannau o'r rhwydwaith cyfieithu. Ac er i'r cyfieithiad gael ei greu i ateb galw penodol, mewn amser prin, nid yw'n tansellio llwyddiant y gwaith: yn dilyn Eisteddfod 1943, perfformiwyd *Emyn o Fawl* (neu gytganau o'r gwaith hirach) yng nghyngherddau deg o Eisteddfodau, yn ogystal â sawl cystadleuaeth ar hyd y blynyddoedd.<sup>30</sup>

Yn wir, agwedd greiddiol i weithgarwch cyfieithu yr Eisteddfod Genedlaethol ar hyd y blynyddoedd yw'r cyngherddau sy'n cael eu perfformio yn y pafiliwn gyda'r nos. Yn dilyn llwyddiant cyfieithu *Emyn o Fawl* ym 1943, arferwyd perfformio gweithiau hirion wedi'u cyfieithu yn y cyngherddau. Ar gyfer Eisteddfod Caerffili, 1950, cyfieithwyd *Elijah Mendelssohn* i'r Gymraeg gan T. H. Parry-Williams, un arall o'r enwau a ymddengys yn aml ymysg rhestrau'r cyfieithiadau cerddorol. Ef hefyd oedd cyfieithydd *Cavalliera Rusticana*, *Carmen*, *I Lombardi*, *Samson* ac, yn enwog ddigon, *Y Meseia*. Perfformiwyd yr uchod i gyd yng nghyngherddau'r Eisteddfod Genedlaethol rhwng 1950 a 1989, ac mae'n wyddys i lawer o'r rhain gael eu comisiynu yn benodol gan yr Eisteddfod Genedlaethol<sup>31</sup> – *Carmen*, er enghraifft, a berfformiwyd yn y Gymraeg am y tro cyntaf gan Gwmni Opera Cenedlaethol Cymru yn Eisteddfod Aberystwyth, 1952.<sup>32</sup> Gweithiau nodedig eraill a gafodd eu perfformiad gyntaf yn y Gymraeg mewn Eisteddfodau yw *Nabucco* (Verdi, cyfieithiad Dyfnallt Morgan), *Damnedigaeth Faust* (Berlioz, cyfieithiad Harri Williams) a *Dido ac Anaeas* (Purcell, cyfieithiad Enid Parry), yn aml wedi'u perfformio gan gôr yr Eisteddfod.<sup>33</sup> Heb fodolaeth y rheol uniaith, byddai'r gweithiau hyn wedi cael eu perfformio yn yr ieithoedd gwreiddiol yn yr Eisteddfod, ac mae'n debygol iawn na fyddai cyfieithiadau ohonynt i'r Gymraeg yn bodoli.

Am rai blynyddoedd wedi gweithredu'r rheol uniaith, roedd un eithriad iddi i'w chlywed mewn cyngherddau yn weddol gyson, sef yr iaith Ladin. Arferid canu'r Offeren a'r *Requiem* yn y Lladin gwreiddiol yn hytrach nag ar eiriau Cymraeg, a hynny hyd at Eisteddfod y Barri ym 1968, pan gyhoeddwyd na fyddai'r geiriau Lladin yn cael eu canu ar unrhyw waith yng nghyngherddau'r Eisteddfod.<sup>34</sup> Beirniadwyd y cam hwn gan wrthwynebwyr, megis yr Athro Jac L. Williams ac Arwel Hughes, a oedd yn dadlau mai culni a fyddai'n cael effaith negyddol ar y profiad o glywed gweithiau o'r fath oedd y polisi hwn.<sup>35</sup> Er gwaethaf y gwrthwynebiad, mewn Eisteddfodau'n dilyn 1968 perfformiwyd yr Offeren, y *Requiem* a'r *Stabat Mater* yn Gymraeg mewn cyngherddau, a chyfieithwyd y testunau Lladin gan Dyfnallt Morgan, Stephen J. Williams ac Enid Parry:<sup>36</sup> Mae hyn yn enghraifft bellach o'r modd y mae gweithrededd yr Eisteddfod wedi cael effaith ar greu cyfieithiadau.

Dros y blynyddoedd, mae ffocws cyngherddau nos yr Eisteddfod wedi newid. Mewn Eisteddfodau diweddar, mae cerddoriaeth werin, cerddoriaeth boblogaidd, sioeau cerdd a gweithiau cerddorol newydd wedi bod yn rhan bwysig o'r arlwy gyda'r nos.<sup>37</sup> Y tro diwethaf i waith clasurol cyfan (a gyfieithwyd) gael ei berfformio oedd *Requiem Fauré* yn 2014.<sup>38</sup> Wrth i'r Eisteddfod Genedlaethol barhau i esblygu a cheisio cyrraedd cynulleidfaoedd ehangach, mae'n deg dweud nad yw'r Brifwyl wedi blaenoriaethu trefnu cyngherddau â'r rhaglen yn cynnwys oratorio neu gantawd cyfan. Mewn blynyddoedd diweddar, gwelwyd pwyslais ar lwyfannu gweithiau cerddorol newydd gyda geiriau Cymraeg gwreiddiol iddynt, megis *Serenestial* (2016), *A Oes Heddwch?* (2017), *Hwn yw fy Mrawd* (2018), a *Lloergan* (2022).<sup>39</sup> Mae'r symudiad pendant hwn tuag at weithiau gwreiddiol yn enghraifft o weithrededd ddiwylliannol sydd â'r ffocws ar greu canon Cymreig newydd, yn hytrach na blaenoriaethu sicrhau cyfieithiadau Cymraeg o weithiau canonaidd Ewropeaidd sy'n bodoli eisoes.

Gwelir hefyd dueddiad i ailadrodd gweithiau wrth i'r blynyddoedd fynd rhagddynt: perfformiwyd *Elias* bum gwaith er 1950, *Stabat Mater* Dvořák a Rossini dair gwaith ill dau,

*Requiem* Verdi bum gwaith a *Carmina Burana* Carl Orff dair gwaith.<sup>40</sup> Yn wir, mae bron i bob gwaith a berfformiwyd mewn cyfieithiad ar lwyfan y Brifwyl mewn cyngerdd wedi'i berfformio fwy nag unwaith yno. Gellid tybio bod ystyriaethau ariannol, a'r awydd i arbed ar gostau cyfieithu gwaith sylweddol o'r newydd, yn ffactor sy'n cyfrannu at gynllunio rhaglenni'r cyngherddau o flwyddyn i flwyddyn. Yn ychwanegol, rhaid cydnabod mai nifer penodol o ddarnau cerddorol o'r fath – gweithiau hirion, i gôr ac ambell unawdydd, sy'n addas o ran gofynion technegol i berfformwyr amatur, gwirfoddol – sy'n bodoli, a bod posibilrwydd bod yr ailadrodd a welir o ran y gweithiau a berfformiwyd yn deillio o ystyriaethau ymarferol yn hynny o beth hefyd. Gellid dadlau, felly, fod gweithgarwch cyfieithu'r rhwydwaith wedi bod yn fawr am gyfnod, wrth i gyfieithiadau newydd gael eu cynhyrchu bron yn flynyddol, ac yn sicr maent yn cynrychioli cyfraniad sylweddol i'r diwylliant perfformio cyfrwng-Cymraeg, ond wrth i fwyfwy o gyfieithiadau gael eu creu, lleihau wnaeth yr angen am gyfieithiadau newydd. Dyma enghraifft o weithredwyr yn cael effaith negyddol ar weithgarwch cyfieithu: drwy ddewis darnau a oedd eisoes wedi'u cyfieithu ar gyfer rhaglenni'r cyngherddau, neu gomisiynu gweithiau newydd gan gyfansoddwyr ac awduron Cymreig.

Er gwaethaf y lleihad yn nifer y cyfieithiadau, mae'n amlwg y bu cyngherddau'r Eisteddfod yn elfen greiddiol o weithgarwch cyfieithu'r rhwydwaith, a hynny yn sgil y rheol uniaith a'r angen am ddarnau safonol i'w perfformio. Daw enghraifft ddiddorol arall o'r modd y gellid ystyried yr Eisteddfod fel catalydd i greu cyfieithiadau nid o adran Gerddoriaeth y Brifwyl, ond yn hytrach o'r adran Llenyddiaeth. Mae cyfieithu wedi bod yn rhan o'r adran hon yn gyson: mewn blynyddoedd a fu, er enghraifft, cafwyd cystadlaethau cyfieithu nofel o'r Almaeneg neu'r Ffrangeg.<sup>41</sup> Cystadleuaeth sy'n dal i fynd hyd heddiw, ac sy'n derbyn cryn gystadlu ar y cyfan, yw cyfieithu neu drosi drama lwyfan.<sup>42</sup> Mewn ambell i Eisteddfod, fodd bynnag, cynhaliwyd cystadleuaeth cyfieithu libreto. Enid Parry, cyfieithydd rhai o'r gweithiau a berfformiwyd yng nghyngherddau'r Eisteddfod, oedd y beirniad ym 1947 ac ym 1954. Ym

1947, cafwyd pedwar ymgais i law, er mai'r unig gyfieithiad o'r gystadleuaeth hon y gellid dweud gyda sicrwydd y'i perfformiwyd yw *Breuddwyd Gerontius*, cyfieithiad Harri Williams. Nodir yn eglur yn rhagair cyhoeddiad Llys yr Eisteddfod o'r gwaith fod y cyfieithiad hwn wedi dod 'yn ail mewn cystadleuaeth yn Eisteddfod Bae Colwyn', ac y manteisiwyd 'ar rai awgrymiadau ym meirniadaeth Mrs. Enid Parry arno' cyn ei gyhoeddi.<sup>43</sup> Ym 1954, cyfieithu libreto 'o unrhyw opereta addas i blant' oedd y dasg, a chanmoliaeth o safon y gystadleuaeth gan y beirniad, Enid Parry, a gafodd un ar ddeg o ymgeiswyr. Er y noda Parry y byddai modd cyhoeddi 'rhyw bump neu chwech' o'r gweithiau wedi peth diwygio, ymddengys mai un yn unig a gyhoeddwyd yn y pen draw, a hynny ym 1957.<sup>44</sup> *Y Llety Rhyfedd* yw'r gwaith, casgliad o ganeuon Brahms wedi'u trefnu o amgylch naratif wedi'i gyfieithu gan Ioan Mai Evans.<sup>45</sup>

Wedi 1954, ni chafwyd cystadleuaeth o'r fath tan 1985, pan ddaeth chwe chyfieithiad o libreto 'o'r Saesneg Gwreiddiol' i law: 'cystadleuaeth dda iawn', yn ôl y beirniad Meurwyn Thomas.<sup>46</sup> Ymysg yr ymgeision, cafwyd cyfieithiadau o'r *Wizard of Oz* a *Jesus Christ Superstar*, ond cyfieithiad o'r *Mikado* ddaeth i'r brig. Yn anffodus prin eto yw'r dystiolaeth y cyhoeddwyd (neu y perfformiwyd) unrhyw un o'r darnau hyn wedi'r gystadleuaeth. Ym 1989, nodwyd yn benodol mai 'trosi libretto drama gerdd gyfoes' oedd tasg y cystadluwyr, ac ym 1993, 'trosiad o opera roc' oedd un o'r cystadlaethau, ond ni chafwyd cystadlu ar yr un o'r cystadlaethau hyn.<sup>47</sup> Yr enghraifft fwyaf diweddar o gystadlaethau cyfieithu gweithiau cerddorol yn yr Eisteddfod oedd yn 2005, gyda chystadleuaeth 'Trosi Sioe Gerdd'. Yn arwyddocaol, nodir yn y rhestr testunau y 'telir £150 i'r buddugol i fynd rhagddo â'r gwaith pan roddir y comisiwn iddo'.<sup>48</sup> Yn wir, dyma dystiolaeth o weithrededd y rhwydwaith cyfieithu yn mynd gam ymhellach nag yng nghystadlaethau'r gorffennol: yn neilltuo rhan o'r wobwr dan amod cyhoeddi'r gwaith, er mwyn, gellid tybio, annog perfformio ar y gwaith buddugol. Er y cafwyd teilyngdod, ymddengys nad aeth y buddugol, Steffan Messenger, ymlaen gyda'r gwaith o gyhoeddi ei gyfieithiad o *Into the Woods*.

2005 oedd y tro diwethaf i gystadleuaeth gyfieithu o'i math (hynny yw, yn gysylltiedig â cherddoriaeth) gael ei chynnal yn yr Eisteddfod. Yn wir, nid yw hyn yn syndod yng ngoleuni'r cystadlu llai na brwd a gafwyd yn gyffredinol ar gystadlaethau tebyg dros y blynyddoedd. Diau bod sawl ffactor yn cyfrannu at hyn: pwyslais cynyddol yn ddiwylliannol ar berfformio gweithiau gwreiddiol yn y Gymraeg yn hytrach na chyfieithiadau, yn ogystal, efallai, â diffyg sylw i'r gystadleuaeth yn ehangach. Rhaid hefyd gydnabod bod yma ffurf arbenigol ar gyfieithu: mae'n gofyn sgiliau cyfieithu llenyddol, yn ogystal â dealltwriaeth o bwysigrwydd rhythmau a brawddegau cerddorol, all gyfyngu'r nifer fyddai'n awyddus i gystadlu. Yn ychwanegol, ceir diffyg cyfle i weld y gwaith buddugol yn cael ei berfformio – er i'r Eisteddfod wneud ymgais i symbylu cyhoeddiad o gynnyrch cystadleuaeth 2005, byddai angen cefnogaeth bellach gan sefydliadau celfyddydol eraill yng Nghymru i sicrhau perfformiad.

Mae llwyddiant gweithrededd y rhwydwaith cyfieithu wrth osod cystadleuaeth a gwahodd cyfieithiadau newydd o eiriau gweithiau cerddorol, felly, yn anodd i'w fesur. Mewn rhai achosion, nid atebwyd yr alwad i gyfieithu a osodwyd gan weithrededd y pwyllgorau lleol o gwbl. Hyd yn oed pan grëwyd cyfieithiadau yn sgil y cystadlaethau, ni wyddir yn iawn a gafodd y gweithiau hynny eu cyhoeddi na'u perfformio wedi eu hanfon i'w beirniadu yn yr Eisteddfod. Yn wir, mae'r traweffaith a gaiff canlyniad y gweithrededd hwn ar y diwylliant perfformio, o bosib, yn fychan iawn. Yn wahanol felly i'r cystadlaethau perfformio neu gyngherddau'r Brifwyl, teg dweud bod yma arbrawf na fu'n gwbl lwyddiannus, er bod y bwriad ynghlwm â gosod cyfieithu libreto neu opera roc fel cystadleuaeth yn dangos uchelgais arwyddocaol ynddi ei hun.

Gan ystyried yr enghreifftiau a drafodwyd yn yr ysgrif hon, gwelir cydberthyniad eglur rhwng gweithredu'r rheol uniaith a gweithgarwch cyfieithu geiriau caneuon a gweithiau cerddorol eraill yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Yn achos y cyngherddau, comisiynwyd a chrëwyd cyfieithiadau o ddegau o weithiau clasurol safonol i'w perfformio drwy gyfrwng y

Gymraeg. Er bod diwylliant y cyngherddau wedi newid efallai dros y blynyddoedd, mae'r ffaith bod y darnau hyn yn bodoli ac yn dal i fod ar gael i'w perfformio yn arwyddocaol ac yn tystio i weithrededd cyfieithu'r Eisteddfod. Yn yr un modd, bu cystadlaethau'r Eisteddfod yn ffynhonnell gref arall o gyfieithiadau: boed hynny'n gyfieithiadau a grëwyd i'w perfformio mewn cystadlaethau unawdol neu yn gystadlaethau ysgrifenedig i greu cyfieithiad. Mae'r ysgrif hon o reidrwydd wedi canolbwyntio ar gystadlaethau a chyfnodau dethol, felly ni ellir honni mai'r darlun llawn a geir yma. Yn sicr mae'r rhwydwaith cyfieithu yn weithredol mewn cystadlaethau corawl, yn ogystal ag Unawd allan o Sioe Gerdd, er enghraifft, lle mae sawl darn sy'n perthyn i Broadway a'r West End wedi'u haddasu i lwyfan y Brifwyl. Fodd bynnag, gellid dweud yn gadarn bod y corpws o gyfieithiadau Cymraeg o ddarnau safonol yn un cyfoethog erbyn heddiw, a hynny, i raddau helaeth, o ganlyniad i weithrededd yr Eisteddfod Genedlaethol a'r rhwydwaith cyfieithu o'i hamgylch yn sgil y rheol uniaith.

---

<sup>1</sup> Alan Llwyd, *Y Gaer Fechan Olaf: Hanes Eisteddfod Genedlaethol Cymru 1937-1950* (Llandybïe, 2006), t. 155.

<sup>2</sup> Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol, *Cyfansoddiad Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol* (Llandysul, 1937), t. 3.

<sup>3</sup> Gweler er enghraifft: *Agents of Translation*, gol. John Milton a Paul F. Bandia (Amsterdam, 2009); 'Poetry Translation: Agents, Actors, Networks, Contexts', *Translation & Literature* [Rhifyn Arbennig] gol. Jeremy Munday a Jacob Blakesley, 25: 1 (2016); *Translation and Global Spaces of Power*, gol. Stefan Baumgarten a Jordi Cornellà-Detrell (Blue Ridge Summit, PA, 2018).

<sup>4</sup> Juan C. Sager, *Language Engineering and Translation: Consequences of Automation* (Amsterdam, 1994), t. 321.

<sup>5</sup> John Milton a Paul Bandia, 'Introduction: Agents of Translation and Translation Studies' yn *Agents of Translation* gol. Milton a Bandia (2009), t. 1.

<sup>6</sup> Hélène Buzelin, 'Unexpected Allies: How Latour's Network Theory Could Complement Bourdieusian Analyses in Translation Studies', *The Translator* 11: 2 (2005), 193–218.

<sup>7</sup> Llwyd, *Y Gaer Fechan Olaf*, t. 80.

<sup>8</sup> Harri Williams, 'Y Busnes Cyfieithu 'ma', *Taliesin* 17 (1969), 109.

<sup>9</sup> Geraint Talfan Davies, 'Two decades of dispute over the all-Welsh rule', *The Western Mail: Royal National Eisteddfod, Barry, 1968* (Awst 5, 1968), ONE.

<sup>10</sup> Llwyd, *Y Gaer Fechan Olaf*, t. 75.

<sup>11</sup> *Welsh Festival Music* gol. H. Walford Davies (London, 1924), clawr mewnol.

---

<sup>12</sup> Er enghraifft: *Caneuon Heddiw: Songs of To-Day* gol. W. S. Gwynn Williams (Llangollen, 1938).

<sup>13</sup> Er enghraifft: *Hen Ganeuon Cymreig Gwaith a Chwarae: Old Welsh Songs of Work and Play* gol. W. S. Gwynn Williams (Llangollen, 1943).

<sup>14</sup> Er enghraifft: *Songs of the Old Masters: Caneuon yr Hen Feistri* gol. W. S. Gwynn Williams (Llangollen, 1943).

<sup>15</sup> Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol, *Rhestr Testunau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Aberpennar 1946* (Aberpennar, 1946), tt. 23–5; Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol, *Rhestr Testunau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Rhos Llanerchrugog 1945* (Rhos Llanerchrugog, 1945), tt. 18–20.

<sup>16</sup> Thomas Jones, 'Eisteddfod Genedlaethol Cymru 1949 Dolgellau a'r Cylch' yn Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol, *Adroddiad 1949 Ynghyd â Hanes, Cyfrifon a Rhestr Buddugwyr Eisteddfod Dolgellau* (Llanelli, 1950), tt. 28–9.

<sup>17</sup> *Ibid.*, t. 29.

<sup>18</sup> Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol, *Rhestr Testunau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Caerffili 1950* (Caerffili, 1950), t. 53.

<sup>19</sup> Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol, *Rhestr Testunau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Llanrwst 1951* (Llanrwst, 1952), tt. 33, 35.

<sup>20</sup> Dafydd M. Jones, 'Eisteddfod Aberystwyth: Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol' yn Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol, *Adroddiad a Chyfrifon am 1952 Ynghyd â Rhestr o'r Aelodau, Cyfrifon, a Rhestr Buddugwyr Eisteddfod Aberystwyth* (Aberystwyth, 1953), tt. 30–1.

<sup>21</sup> Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol, *Adroddiad a Chyfrifon am 1950 Ynghyd â Rhestr o'r Aelodau, Cyfrifon Eisteddfod Dolgellau, a Rhestr Buddugwyr Eisteddfod Caerffili* (Caerffili, 1951), tt. 16–17; Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol, *Adroddiad 1952*, t. 94.

<sup>22</sup> Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol, *Cyfansoddiad Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol* (Llandysul, 1937), t. 19.

<sup>23</sup> *Adroddiad 1952*, t. 94.

<sup>24</sup> *Ibid.*

<sup>25</sup> Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy, *Testunau: Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019* (Y Wyddgrug, 2019) t. 21.

<sup>26</sup> *Adroddiad 1952*, tt. 4–8.

<sup>27</sup> Ernest Roberts, *Briwsion y Brifwyl* (Caernarfon, 1978), t. 36.

<sup>28</sup> *Ibid.*

<sup>29</sup> Derec Llwyd Morgan, 'PARRY, Syr Thomas (1904-1985), ysgolhaig, Llyfrgellydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Prifathro Prifysgol, bardd', *Y Bywgraffiadur*, <https://bywgraffiadur.cymru/article/c6-PARR-THO-1904> (cyrchwyd 10 Mehefin 2022).

<sup>30</sup> Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Dolgellau a'r Cylch, *Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Dolgellau 1949: Rhaglen Swyddogol* (Dolgellau, 1949), tt. 147–51; Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Aberystwyth, *Rhaglen Swyddogol Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Aberystwyth 1952* (Lerpwl, 1952), t. 157; Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Ystradgynlais a'r Cylch, *Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru: Rhaglen y Dydd Ystradgynlais a'r Cylch 1954* (Castell Nedd, 1954), t. 183; Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Caerdydd, *Eisteddfod Frenhinol Genedlaethol Cymru Caerdydd 1960: Rhaglen y Dydd* (Lerpwl, 1960), t. 195; Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Llanelli a'r Cylch, *Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Llanelli a'r Cylch 1962: Rhaglen y Dydd* (Llandysul, 1962), t. 204; Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Sir Feirionnydd 1967, *Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru 1967 Sir Feirionnydd Y Bala: Rhaglen Swyddogol* (Lerpwl, 1967), t. 187; Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Bro Myrddin, *Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Caerfyrddin 1974: Rhaglen Swyddogol* (Llandybie, 1974), t. 57; Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Llanbedr Pont Steffan a'r



---

Fro, *Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Llanbedr Pont Steffan a'r Fro 1984: Rhaglen Swyddogol* (Llanbedr Pont Steffan, 1984), t. 226; Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Ceredigion, Aberystwyth, *Eisteddfod Genedlaethol Cymru Ceredigion, Aberystwyth 1992: Rhaglen Swyddogol* (Aberystwyth, 1992), t. 163; Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Môn, *Eisteddfod Genedlaethol Cymru Môn 1999: Rhaglen* (Llangefni, 1999), t. 123.

<sup>31</sup> Ar wahân i'r *Meseia*. Y BBC a gomisiynodd y cyfieithiad Cymraeg, ac fe ddarlledwyd y perfformiad cyntaf ar Wasanaeth Cymru o Neuadd y Brangwyn yn Abertawe ym mis Rhagfyr 1954. Gweler Bapurau Syr T. H. Parry-Williams a'r Fonesig Amy Parry-Williams, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, I163-I178.

<sup>32</sup> 'Our Own Correspondent', "'Carmen" in Welsh', *The Western Mail* (11 Awst, 1952), 3.

<sup>33</sup> Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Aberafan a'r Cylch, *Y Rhaglen Swyddogol: Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Aberafan a'r Cylch 1966* (Aberafan, 1966), tt. 61–5; Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Rhydaman a'r Cylch, *Rhaglen Swyddogol Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Rhydaman a'r Cylch Rhydaman 1970* (Abertawe, 1970), tt. 144–60; Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Ynys Môn, *Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Ynys Môn 1983: Rhaglen Swyddogol* (Dinbych, 1983) tt. 279–313.

<sup>34</sup> Mansel Jones, 'Row as Latin for mass is dropped', *The Western Mail* (Awst 9, 1968), 6.

<sup>35</sup> Ibid; Arwel Hughes, 'Cerddoriaeth yr Eisteddfod' yn *Eisteddfota 2* gol. Gwynn ap Gwilym (Abertawe, 1978), tt. 99–103;

<sup>36</sup> Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Dyffryn Clwyd, *Rhaglen Swyddogol Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Dyffryn Clwyd 1973* (Liverpool, 1973), tt. 97–101, 159–65; Pwyllgor Gwaith Aberystwyth, *Aberystwyth 1992: Rhaglen Swyddogol*, t. 241.

<sup>37</sup> Eisteddfod Genedlaethol Cymru, '2022: Y Pafiliwn Gyda'r Nos', <https://eisteddfod.cymru/2022-y-pafiliwn-nos> (cyrchwyd 16 Mehefin 2022).

<sup>38</sup> Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Sir Gâr, *Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr 2014: Rhaglen* (Llanelli, 2014), t. 34.

<sup>39</sup> Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Sir Fynwy a'r Cyffiniau, *Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Fynwy 2016: Rhaglen y Dydd* (Y Fenni, 2016), t. 110; Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol Môn, *Eisteddfod Genedlaethol Cymru Môn 2017: Rhaglen y Dydd* (Bodedern, 2017), t. 42; Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd, *Eisteddfod Genedlaethol Cymru Caerdydd 2018: Rhaglen y Dydd* (Caerdydd, 2018), t. 42; Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Ceredigion, *Eisteddfod Genedlaethol Cymru Ceredigion 2022: Rhaglen y Dydd* (Tregaron, 2022), t. 53.

<sup>40</sup> Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Caerffili, *Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Caerffili 1950: Rhaglen Swyddogol* (Liverpool, 1950), tt. 285–97; Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Llanrwst, *Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Llanrwst 1951: Rhaglen y Dydd* (Llanrwst, 1951), t. 101; Pwyllgor Gwaith Aberafan, *Rhaglen Aberafan 1966*, tt. 109–15; Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Aberteifi, *Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru, Aberteifi a'r Cylch, 1976: Rhaglen Swyddogol* (Aberteifi, 1976), tt. 104–7; Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Wrecsam a'r Cylch, *Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Wrecsam a'r Cylch 1977: Y Rhaglen Swyddogol* (Wrecsam, 1977), tt. 67–73; Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Dyffryn Lliw, *Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Dyffryn Lliw 1980: Rhaglen Swyddogol* (Tre-gŵyr, 1980), tt. 179–81, 203–8; Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Maldwyn a'i Chyffiniau, *Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Maldwyn a'i Chyffiniau 1981: Y Rhaglen Swyddogol* (Machynlleth, 1981), tt. 167–80; Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Abertawe a'r Cylch, *Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Abertawe a'r Cylch 1982: Rhaglen Swyddogol* (Abertawe, 1982), tt. 157–61; Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Abergwaun a'r Fro, *Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Abergwaun a'r Fro 1986: Rhaglen Swyddogol* (Abergwaun, 1986), tt. 111–16; Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Bro Madog, *Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru: Rhaglen Swyddogol Bro Madog 1987* (Porthmadog, 1987),

---

tt. 151–71; Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Dyffryn Conwy a'r Cyffiniau, *Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Dyffryn Conwy a'r Cyffiniau 1989: Rhaglen Swyddogol* (Llanrwst, 1989), tt. 145–61; Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Cwm Rhymni, *Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cwm Rhymni 1990: Rhaglen* (Bargoed, 1990), tt. 295–7; Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Bro Delyn, *Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Bro Delyn 1991: Rhaglen Swyddogol* (Yr Wyddgrug, 1991), t. 191; Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Nedd a'r Cyffiniau, *Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Nedd a'r Cyffiniau: Rhaglen 1994* (Castell-Nedd, 1994), tt. 81–4; Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Bro Dinefwr, *Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Bro Dinefwr: Rhaglen 1996* (Llandeilo, 1996), tt. 85, 221–2; Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Sir Benfro, Tyddewi, *Rhaglen Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Benfro, Tyddewi 2002* (Tyddewi, 2002), t. 81; Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Casnewydd a'r Cylch, *Rhaglen Eisteddfod Genedlaethol Cymru Casnewydd a'r Cylch 2004* (Casnewydd, 2004), t. 156.

<sup>41</sup> *Eisteddfod Genedlaethol 1947 (Bae Colwyn): Cyfansoddiadau a Beirniadaethau* gol. William Morris (Liverpool, 1947), t. v.

<sup>42</sup> *Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Conwy 2019: Cyfansoddiadau a Beirniadaethau* gol. W. Gwyn Lewis (Llandysul, 2019), t. xiv.

<sup>43</sup> Cardinal Newman ac Edward Elgar, *The Dream of Gerontius: Breuddwyd Gerontius* cyfieith. Harri Williams (Ystradgynlais, 1954), t. 3.

<sup>44</sup> Enid Parry, 'Cyfieithu Libreto i'r Gymraeg o unrhyw operetta addas i blant' yn *Eisteddfod Genedlaethol Cymru Ystradgynlais 1954: Cyfansoddiadau a Beirniadaethau* gol. T. H. Parry-Williams (Liverpool, 1954), t. 210.

<sup>45</sup> May Sarson a Johannes Brahms, *Y Llety Rhyfedd (The Wonderful Inn)* cyfieith. Ioan Mai Evans (London, 1957). Ni wyddys a berfformiwyd y gwaith hwn wedi ei gyhoeddi: ni chafwyd hyd i unrhyw gyfeiriad at berfformiad ym mhapurau newydd y cyfnod.

<sup>46</sup> Meurwyn Thomas, 'Trosi *Libretto* o'r Saesneg gwreiddiol' yn *Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Y Rhyl a'r Cyffiniau 1985: Cyfansoddiadau a Beirniadaethau* gol. J. Elwyn Hughes (Llandysul, 1985), tt. 176–8.

<sup>47</sup> *Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Dyffryn Conwy a'r Cyffiniau: Cyfansoddiadau a Beirniadaethau* gol. J. Elwyn Hughes (Llandysul, 1989), t. xiv; *Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru De Powys: Llanellwedd 1993: Cyfansoddiadau a Beirniadaethau* gol. J. Elwyn Hughes (Llandybie, 1993), t. x.

<sup>48</sup> Einion Dafydd, 'Trosi Sioe Gerdd' yn *Eisteddfod Genedlaethol Cymru Eryri a'r Cyffiniau 2005: Cyfansoddiadau a Beirniadaethau* gol. J. Elwyn Hughes (Llandysul, 2005), t. 179.